Coeden Ddarllen Rhydychen




Rhagor o Dylluanod

# Braw yn y Nos

Roderick Hunt Alex Brychta



DRAKE





Aeth Cad a Dids i aros gyda Nain.
Aethon nhw i aros am wythnos.
'Byddwch yn dda,' galwodd Mam.
'Peidiwch â phoeni,' meddai Nain. 'Fe fydda i.'



Roedd tŷ Nain yn fach.
Roedd dwy ystafell wely.
Roedd rhaid i Cad a Dids gysgu
yn yr un ystafell wely.



Roedd Dids eisiau'r gwely ger y drws.
Roedd Cad eisiau'r gwely ger y ffenestr.
'Dyna ni,' meddai Nain.



Aeth Nain â Cad a Dids am dro.
Aethon nhw i'r goedwig.
Gwelodd Cad fwyar duon.
Roedd hi am gasglu rhai.





Roedd bagiau plastig gan Nain.
Rhoddodd un i Cad a Dids.
'Gallwn wneud jam mwyar duon,'
meddai.




Gwnaeth Nain y jam mwyar duon.
Helpodd Cad a Dids.
Gwnaeth Dids labeli a
llyfodd Cad y llwy.

Gwnaethon nhw lond naw jar o jam.
'Cewch fynd â jar adre i
Onw,' meddai Nain.
'A jar i Wilff a Wilma.'




Roedd y plant yn dotio at dŷ Nain.
Roedd yn hen iawn.
Roedd lle tân mawr yno.
Helpodd Cad Nain i gynnau'r tân.





Helpodd Dids Nain i nôl coed tân.
'Oes ysbrydion 'da chi?' gofynnodd.
Chwarddodd Nain.
'Does mo'r fath beth,' meddai.



Eisteddon nhw ger y tân.
Gwnaeth Nain dost.
Roedd Cad eisiau profi'r jam newydd.
'Mae'n dal yn rhy boeth,' meddai Nain.



Roedd gan Dids gêm newydd.
Tŷ'r Ysbryd oedd ei henw.
'Gawn ni chwarae Tŷ'r Ysbryd,
cyn mynd i'r gwely?' gofynnodd.



Roedd yn amser gwely.
Trefnodd Nain botel ddŵr poeth i Dids.
‘**Oes** ysbryd yn y tŷ hwn?’ gofynnodd Cad.

‘Paid â phoeni,’ chwarddodd Nain.
‘Does dim ysbrydion yn fy nhŷ i.
Does mo’r fath beth.’



Doedd Cad a Dids ddim yn gallu cysgu.
Cafodd Cad syniad.
Roedd hi am chwarae tric ar Dids.
Roedd tors ganddi yn y gwely.







Rhoddodd Cad y gynfas dros ei phen.
Taniodd y tors.
Disgleiriodd y gynfas.
'Whooooooo! Ysbryd ydw i,' meddai Cad.



Chwarddodd Dids.
Doedd e ddim wedi cael braw.
Tynnodd y gynfas oddi ar Cad.
'Dyna jôc dda,' meddai.






Clywodd Cad a Dids sŵn.
Daeth o'r tu allan.
'Whooooo! Whooooo!' oedd y sŵn.
'O na!' meddai Cad. 'Ysbryd yw e.'




Edrychodd Dids drwy'r ffenestr.
'Nid ysbryd yw e,' chwarddodd.
'Tylluan yw hi. Tyrd i edrych.'






Edrychodd Cad a Dids allan.
'O na!' meddai Dids.
'Rwy'n gallu gweld ysbryd.
Ysbryd **yw** e'r tro hwn.'



Rhedodd Cad a Dids i ystafell Nain.
'Nain! Nain!' galwodd Cad.
'Mae ysbryd y tu allan.'
Ond doedd Nain ddim yn y gwely.





Rhedodd Cad a Dids i lawr i grisiau.
'Nain!' galwodd Cad. 'Ble'r ydych chi?'
'Ryn ni wedi gweld ysbryd.'
Ond doedd Nain ddim i lawr y grisiau.




Agorodd y drws.

Roedd ofn ar Cad a Dids.

'O na!' medden nhw.

Daeth Nain i mewn.





'Roedden ni wedi cael braw,' meddai Dids.

'Roeddech chi'n edrych fel ysbryd.'

Chwarddodd Nain.

'Nid ysbryd ydw i,' meddai.



'Does dim ysbrydion yma,' meddai Nain.
'Ond mae gen i ddau anghenfil bach!'
Chwarddodd Nain a chwarddodd Cad a Dids hefyd.

Argraffwyd yng Nghymru

# Braw yn y Nos

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**



Rhagor o
Dylluanod

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-298-2

ISBN 0 86 174298 2

DRAKE

9 790861 742980